Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Hannah Curphey**

**Wrecsam**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ebrill 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.' |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn cyfathrebu'n dda ac yn gwneud cynnydd da gyda'u sgiliau siarad, eu sgiliau cymdeithasol a'u dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol iawn, yn garedig ac yn gyfeillgar. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn gyson. Mae ganddi gymwysterau addas, ac mae'n dangos gwybodaeth dda am ddatblygiad ac anghenion penodol y plant.

Mae'r cartref yn ddiogel, yn addas ar gyfer plant, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r plant yn chwarae yn yr ystafell fwyta, y lolfa a'r tu allan. Caiff y teganau a'r adnoddau dysgu eu storio o fewn cyrraedd hawdd i'r plant er mwyn iddynt allu dewis beth yr hoffent chwarae ag ef. Mae'r ardd gefn wedi cael ei datblygu ers yr arolygiad blaenorol ac mae'n cynnig ardal ysgogol i'r plant chwarae ynddi. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored, ac yn deall manteision galluogi'r plant i chwarae a dysgu mewn amgylchedd naturiol yn llawn. Mae'n mynd â'r plant allan i barciau lleol, parciau gwledig a lleoliadau o ddiddordeb sy'n addas ar gyfer eu hoedran.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i sicrhau bod ei lleoliad yn rhedeg mewn ffordd ddidrafferth a diogel. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn nodi sut y caiff y lleoliad ei redeg a'r hyn y mae'r gwarchodwr plant yn ei wneud yn dda. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r rhieni ei darllen. Fodd bynnag, byddai rhoi cynllun gweithredu ar waith yn hysbysu'r rhieni ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am unrhyw newidiadau sy'n cael eu hystyried yn y lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y lolfa a'r ystafell fwyta, yn estyn eitemau fel y set trên a'r buarth fferm byd bach pan fyddant am chwarae gyda nhw. Mae'r plant yn hapus i fynegi eu hunain. Roedd y rhai a oedd yn bresennol o dan ddwy oed ac yn cyfathrebu gan ddefnyddio rhai geiriau ac ymadroddion syml. Mae'r plant yn hapus i gynnwys y gwarchodwr plant yn eu chwarae. Maent yn chwilfrydig, yn gofyn cwestiynau, yn ailadrodd geiriau ac yn mwynhau sgwrsio. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant pan fyddant am gael diod neu byrbryd neu pan fyddant am fynd allan i chwarae. Mae'r plant yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn barod i wrando arnynt a'u helpu i gael gafael ar y pethau sydd ei angen arnynt. Mae'r plant yn ddigon hyderus hefyd i roi cynnig ar wneud pethau drostynt eu hunain os ydynt yn gallu gwneud hynny. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant i gael maldod a chymorth pan fyddant yn ofidus ac maent yn mwynhau treulio amser yn ei chwmni, yn enwedig yn yr awyr agored. Maent yn hoffi pan fydd y gwarchodwr plant yn ymuno â nhw yn eu chwarae, a phan fydd yn chwarae 'pi-po', sy'n gwneud iddyn nhw chwerthin. Maent yn eistedd yn agos ati pan fyddant ar y llawr ac ar ei glin. Mae hyn yn dangos ei bod yn rhaid eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn ei chwmni.

Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl da i'r plant. Maent yn dysgu sut i barchu eraill, rhannu teganau a bod yn garedig wrth ei gilydd. Maent yn gwrando ar y gwarchodwr plant wrth iddi esbonio pethau iddynt a phan fydd yn eu hannog i wneud y peth cywir. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r hyn y mae'n ei ddweud ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda. Mae'r plant yn dechrau deall sut y gall eu gweithredoedd wneud i eraill deimlo'n drist neu'n ofidus. Maent yn cyfaddawdu ac yn dysgu sut i rannu sylw'r gwarchodwr plant pan fydd plant eraill yn cael maldod.

Mae'r plant yn mwynhau dysgu drwy chwarae ac maent yn cael amrywiaeth dda o gyfleoedd dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn dangos diddordeb ac yn ymuno â'r gweithgaredd pan fydd y gwarchodwr plant yn adrodd stori wrthynt. Pan gânt eu hannog i wneud hynny, maent yn chwarae â'r siapiau magnetig ochr yn ochr â'r gwarchodwr plant. Maent yn bwrw ati'n llawn cyffro i balu yn y tywod yn yr ardal awyr agored. Maent yn chwilfrydig pan fyddant yn gweld y golau yn disgleirio drwy'r siapiau magnetig a phan fyddant yn dod o hyd i degan difyrru ar ben un o'r cypyrddau. Maent yn canolbwyntio'n ddwys pan fydd y gwarchodwr plant yn dangos iddynt sut i wneud pethau ac yn aml yn benderfynol o wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn egnïol, gan reidio beiciau, defnyddio teganau gwthio a rhedeg i weiddi ar y defaid pan fyddant yn eu gweld ar waelod yr ardd. O ganlyniad, mae'r plant yn frwdfrydig iawn am eu chwarae ac yn gwneud cynnydd da o ran eu datblygiad. Cânt gyfleoedd o bryd i'w gilydd i gwrdd â phlant lleol eraill sy'n cael gofal gan warchodwyr plant eraill. Maent yn treulio cryn dipyn o amser yn yr awyr agored mewn parciau lleol gwahanol a pharciau gweledig ac yn mynd am dro ar hyd yr afon lle maent wrth eu bodd yn archwilio'r amgylchedd lleol.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain. Maent yn eistedd wrth y bwrdd i gael byrbryd a phrydau bwyd, yn bwyta'n annibynnol ac yn dewis eu heitemau eu hunain oddi ar blât. Maent yn defnyddio'r ystafell ymolchi yn annibynnol i olchi eu dwylo dan oruchwyliaeth y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn rhoi cynnig ar wneud pethau newydd drostynt eu hunain gan eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Os bydd angen help arnynt, mae'r gwarchodwr plant bob amser wrth law i roi cymorth iddynt.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth glir o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'n eu hannog yn frwdfrydig i chwarae yn yr awyr agored ac i ddilyn ffyrdd iach o fyw. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo llesiant y plant yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant wedi cael yr hyfforddiant iechyd a diogelwch, hylendid bwyd sylfaenol a chymorth cyntaf diweddaraf. Mae wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant hyd at lefel uwch. Mae'n cwblhau cyrsiau gloywi ac yn meddu ar dystysgrifau cymhwysedd sy'n bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig. Mae'r gwarchodwr plant yn llwyr ymwybodol o'i chyfrifoldebau diogelu ac wedi gweithio mewn lleoliad gofal dydd yn y gorffennol. Mae systemau addas ar waith i gofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes ac i roi meddyginiaethau os yw'n briodol. Caiff y rhieni wybod am gynnydd eu plant a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd bron bob dydd, drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio tudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol ac ap anfon negeseuon sy'n ei galluogi i anfon lluniau at unigolion. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn foddhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi byrbrydau a phrydau bwyd iach a maethlon ond nid oes ganddi fwydlen benodol ar gyfer y plant. Fodd bynnag, caiff y rhieni wybod pa fwydydd y mae eu plentyn wedi'u bwyta bob dydd.

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthynas hyfryd â phob plentyn. Mae'n darparu gofal magwrus cynnes a chyson, gan ymateb yn garedig i blentyn a ddisgynnodd oddi ar feic a phlentyn arall a oedd am gael maldod. Mae'n deall anghenion unigol y plant a'u personoliaethau ac yn hyrwyddo ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol tuag at ei gilydd. Mae'n annog y plant i fod yn barod i rannu. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym y byddai'n tynnu sylw'r plant pan na fydd eu hymddygiad yn briodol ac y byddai bob amser yn esbonio pethau iddynt. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant er mwyn ymdrin ag ymddygiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar a deall yr ymddygiadau hynny, a chadarnhaodd ei fod wedi ei helpu i ddatblygu'r strategaethau y mae'n eu defnyddio ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu cyffrous ac ysgogol sy'n hyrwyddo diddordebau'r plant, ac yn meithrin eu sgiliau, eu dysgu a'u datblygiad personol. Gwneir hyn drwy chwarae gan fod y plant yn dangos chwilfrydedd naturiol. Mae rhai o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio, ac o dan arweiniad yr oedolyn. Er enghraifft, mae'n cynllunio teithiau i leoliadau o ddiddordeb ac yn mynd â'r plant am dro yn yr amgylchedd lleol. Weithiau, mae'n cwrdd â gwarchodwyr plant eraill a'r plant y maent yn gofalu amdanynt er mwyn i'r plant allu cymdeithasu â phlant eraill o'r un oed. Mae rhyngweithio ag eraill yn rhoi cyfleoedd ar gyfer modelu iaith cadarnhaol i'r plant sy'n helpu i feithrin sgiliau iaith a sgiliau cymdeithasol. Clywsom eiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn cael eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn olrhain cynnydd y plant ym mhob maes datblygiadol gan ddefnyddio ffotograffau a sylwadau arsylwi y mae'n eu rhannu â'r rhieni yn electronig gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac apiau anfon negeseuon.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn addas i blant, yn ddiogel ac yn lân. Roedd y drws ffrynt wedi'i gloi pan wnaethom gyrraedd a gofynnwyd am gael gweld ein bathodynnau adnabod. Gwnaethom lofnodi llyfr ymwelwyr. Mae ci yn y lleoliad ac roedd yn y garej pan wnaethom gyrraedd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod gan y ci ardal benodol ar gyfer mynd i'r tŷ bach a bod y rhieni wedi rhoi caniatâd i'w plentyn ddod i gysylltiad â'r ci. Mae cawell o dan y grisiau ar gyfer cath, a oedd yn wag ar ddiwrnod ein hymweliad. Nid oedd unrhyw arogleuon annymunol yn y cartref. Mae'r ardd gefn wedi cael ei datblygu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf ac mae'n un o gryfderau'r lleoliad hwn. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle a theithiau allan ac ar gyfer cludo'r plant yn y car. Ceir dogfen polisi a gweithdrefn ychwanegol ar gyfer defnyddio'r trampolîn. Mae nifer o ardaloedd gwahanol yn yr ardd. Mae asesiadau risg addas wedi cael eu cynnal ac mae giatiau ychwanegol wedi cael eu gosod er mwyn atal plant ifanc iawn rhag mynd i'r ardaloedd gwahanol. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn briodol ac yn nodi peryglon posibl pan fyddant yn yr awyr agored. Roedd caead ar y pwll tywod. Roedd y ffens berimedr mewn cyflwr da, yn ogystal â'r giatiau, y cloeon a'r ffensys a oedd yn cael eu defnyddio i rannu'r ardaloedd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y gwarchodwr plant yn ystyried cynnal ymarferion ar gyfer dychwelyd y plant i ardal dan do yn gyflym. Mae gan y gwarchodwr plant fag sy'n cynnwys eitemau cymorth cyntaf ac eitemau hanfodol i fabanod sy'n cael ei storio yn yr ardal awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar sy'n addas ar gyfer plant. Mae'r ystafelloedd a ddefnyddir yn olau ac yn agored. Maent wedi'u haddurno'n addas ac mae digon o le i'r plant chwarae yn rhydd. Y lolfa a'r ystafell fwyta y mae'r plant yn eu defnyddio fwyaf. Maent yn treulio llawer o amser yn yr awyr agored lle ceir sied chwarae fawr sy'n cynnwys dodrefn addas. Mae ardaloedd wedi'u gorchuddio ar gael er mwyn gallu chwarae yn yr awyr agored mewn tywydd gwlyb. Mae teganau ac adnoddau amrywiol sy'n addas ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt a gallant gael gafael arnynt yn hawdd gan eu bod yn cael eu storio'n gyfleus er mwyn i'r plant allu eu cyrraedd. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ofalu am fywyd gwyllt ac yn cynnwys y plant wrth fwydo'r adar, plannu blodau a chynnal Gwesty Chwilod. Mae cyfarpar chwarae mawr, fel teganau reidio, siglenni a thrampolîn, rhwyd pêl-droed a wal ddringo yn galluogi'r plant i wneud ymarfer corff ac i ddatblygu'n gorfforol. Caiff tai chwarae a siediau eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft a chwarae rôl. Defnyddir un o'r siediau fel ‘cornel gartref’ ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys dodrefn a chyfarpar chwarae cegin.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Mae'r plant yn eistedd ar seddi codi addas wrth y bwrdd a defnyddir giatiau diogelwch i'w

hatal rhag mynd i'r gegin ac i fyny'r grisiau. Mae'r gwarchodwr plant wedi prynu bygis a seddi car er mwyn sicrhau y caiff y plant eu cludo'n ddiogel pan fyddant yn mynd am dro ac yn teithio yn y car saith set. Roedd yr holl gyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da. Rhoddir ystyriaeth briodol i sicrhau bod yr adnoddau yn hyrwyddo'r byd ehangach fel cymdeithas amrywiol ac amlddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwarchodwr plant ers y pandemig diweddar. Mae wedi parhau i weithredu ei lleoliad yn dda ac wedi cadw mewn cysylltiad ag AGC drwy alwadau monitro a thrwy ddefnyddio'r cyfleusterau ar-lein sy'n gysylltiedig â'i chyfrif AGC Ar-lein. Cyn gwarchod plant, roedd wedi gweithio mewn lleoliadau gofal plant. Mae ganddi brofiad o fagu ei phlant ei hun ac mae'n cwblhau hyfforddiant er mwyn meithrin ei sgiliau ymhellach. Mae Datganiad o Ddiben y lleoliad yn helpu'r rhieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn adlewyrchu ansawdd y lleoliad a arolygwyd; fodd bynnag, nid yw'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cyfeirio at y Ddeddf ADY. Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac yn cadw cofnodion sy'n ei helpu i redeg y lleoliad yn ddidrafferth ac yn darparu tystiolaeth o hynny. Mae ganddi gontractau wedi'u cwblhau ar gyfer y plant presennol a'r rhai hynny y disgwylir iddynt ymuno â hi yn fuan, yn ogystal â ffurflenni cofrestru sy'n nodi dewisiadau ac anghenion unigol penodol y plant os yn berthnasol. Mae'r ffurflenni caniatâd yn berthnasol i'r lleoliad ac yn cynnwys y gweithgareddau a gaiff eu cynnal a'r anifeiliaid anwes sy'n bresennol ar y safle. Mae'r rhieni wedi cytuno ar y ffurflenni hyn ac wedi'u llofnodi, gan sicrhau bod y ddau barti yn ymwybodol o'r anghenion unigol a ddatgelwyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r angen i fonitro ac adolygu ei lleoliad bob blwyddyn ac roedd wrthi'n adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae wedi cyflwyno hunanwerthusiadau yn y gorffennol yn ogystal ag adroddiad addas ar ansawdd y gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn myfyrio ar y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg o ddydd i ddydd fel sydd wedi'i nodi yn ei hadroddiad diweddar ar ansawdd y gofal. Mae'n cofnodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ac unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud. Mae polisi cwynion boddhaol ar waith sydd wedi cael ei addasu er mwyn annog y plant hŷn i godi eu pryderon eu hunain. Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y lleoliad hwn yn y gorffennol.

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar gymhwyster gofal plant lefel 3 perthnasol a enillodd pan oedd yn gweithio mewn lleoliad gofal plant yn y gorffennol, ac eto pan gafodd ei chofrestru fel lleoliad gofal o gartref. Mae ganddi dystysgrif diogelu uwch hyd at lefel 3, sy'n dangos ei bod yn gymwys i nodi a rheoli materion diogelu yn ei lleoliad. Mae'n meddu ar dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n dangos ei bod yn addas i weithio gyda phlant ac mae wedi sicrhau bod yr unigolion hynny dros 16 oed sy'n byw ar y safle wedi cwblhau'r gwiriadau hyn a'u bod nhw hefyd yn addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni, gofalwyr, asiantaethau cymorth a gweithwyr proffesiynol y mae'n dewis gweithio gyda nhw. Mae hyn yn sicrhau y gall y gwarchodwr plant roi cymorth da a pherthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddi sy'n diwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol. Mae'n siarad yn hyderus â'r rhieni pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plentyn o'r lleoliad er mwyn trafod eu

hanghenion, y gweithgareddau y gwnaethant ymgymryd â nhw yn ystod y dydd ac er mwyn parhau i feithrin cydberthnasau da. Mae'n rhannu gwybodaeth yn briodol ar ffurf electronig.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau y caiff cynllun gweithredu ei lunio wrth gwblhau adolygiad o ansawdd y gofal yn y lleoliad. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod bwydlenni yn cael eu creu ar gyfer prydau a/neu fyrbrydau yn unol â 'Chanllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant' |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/10/2024